# Gair i gall

## Dangoswch eich bod chi'n rhagori ar bawb arall pan rydych chi'n ymgeisio am gyfle ymchwil

**Cofiwch yr awgrymiadau hyn pan rydych chi'n mynegi diddordeb mewn cyfle ymchwil, i sicrhau eich bod chi'n cael y siawns gorau posibl i gael eich dewis:**

- **Darllenwch hysbyseb y cyfle'n ofalus**
  Ceir amlinelliad o'r meini prawf. Os oes unrhyw amheuaeth, gofynnwch i'r tîm cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd; maen nhw yma i helpu.

- **Mynegwch eich diddordeb yn unol â'r hyn y mae'r hysbyseb yn gofyn amdano**
  Os oes yna ffurflen gais, llenwch hi! Os ydy'r hysbyseb yn gofyn am ddisgrifiad byr mewn 200 o eiriau o'ch 'profiad o ddialysis arennol', yna dyna'r wybodaeth y bydd yr ymchwilwyr yn ei defnyddio i'w helpu nhw i benderfynu pwy i'w dewis.

- **Pan ofynnir, rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl**
  Hanes, profiad personol, profiad proffesiynol, brwdfrydedd ac ati. Dywedwch wrth yr ymchwilydd pam eich bod chi eisiau chwarae rhan.

- **Rydyn ni'n eich adnabod, ond nid felly'r ymchwilydd**
  Penderfyniad yr ymchwilydd ydy pwy i'w dewis yn y pen draw. Mae hi i fyny i chi ddweud wrthyn nhw amdanoch chi'ch hun.

- **Ymatebwch cyn y dyddiad cau**

- **Ewch ar-lein**
  Mae llawer o gyfleoedd yn galw am ddefnyddio e-bost, y rhyngrwyd a gweld dogfennau'n electronig. Siaradwch â'r tîm cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd ynglŷn â hyn os ydych chi'n meddwl y gallai fod yn rhwystr rhag ichi gymryd rhan.